**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**25 HYDREF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 25 Hydref 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Rob Davies, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Ted Palmer a Mike Peers

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke, Gladys Healey, Hilary McGuill a Dan Rose

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelod Lleol:
Y Cynghorydd David Coggins Cogan - eitem 6.2 ar y rhaglen (063093)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 26. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 27. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5496&LLL=0

## 28. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 29. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

**30. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**31. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd saith aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3pm)

**……………………………**
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 25 HYDREF 2023**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/000001/23 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Cais llawn – Datblygiad o 20 fflatiau bwthyn un llofft, 3 o dai 2 llofft a 7 o dai 3 llofft gyda thirlunio cysylltiol a mynediad i gerbydau yng nghyn Ganolfan Arddio Spectrum, Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd. | Darllenwyd datganiad ar ran Belinda Williamson (Preswylydd) yn cefnogi'r cais.<br><br>Siaradodd Daniel Russell (Asiant) o blaid y cais.<br><br>Cytunwyd y byddai swyddogion yn ysgrifennu at y Gwasanaethau Stryd i adolygu'r cyfyngiad cyflymder presennol ar y ffordd y tu allan i'r safle a'r potensial ar gyfer ynys i ddiogelu traffig sy'n troi i'r dde wrth adael y safle. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Rwymedigaeth Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad gydag amod ychwanegol fel a ganlyn:<br><br><u>Amod 21</u><br>Cyn eu gosod, dylid cyflwyno manylion llawn goleuadau a derbyn cytundeb ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe ddylai'r Cynllun Goleuadau gynnwys: Manylion lleoliad a'r mathau o oleuadau a ddefnyddir Manylion y tafliad golau mewnol Cynlluniau'n amlinellu'r tafliad golau ar hyd Afon Cegidog Manylion y goleuadau a ddefnyddir yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu Mesurau i fonitro tafliad golau unwaith y bydd y datblygiad yn weithredol Dylid gosod a chadw'r goleuadau fel y cawsant eu cymeradwyo. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 063093 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Materion a gedwir yn ôl - Cais ar gyfer cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, yn dilyn caniatâd amlinellol Cyf; 053325 yn 1 Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd, Yr Wyddgrug | Siaradodd Chris Wilcock (Preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Gareth Davies (yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd David Coggins Cogan (Aelod Lleol) yn erbyn y cais. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad a'i ddiwygio fel a ganlyn:<br><br><u>Amod 8 i nodi:</u><br>Cyn datblygu, bydd cynlluniau cychwynnol yn dangos lefelau topograffeg ac adrannau hydredol y safle, yn ogystal â manylion unrhyw strwythurau sydd eu hangen, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo.<br><br>Ar ôl eu cymeradwyo, bydd yn rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â'r manylion a gymeradwyir.<br><br><u>Amod 9 i nodi:</u><br>Er gwaethaf y manylion a gymeradwyir drwy hyn, bydd cynllun goleuadau allanol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn y bydd unrhyw un yn meddiannu'r anheddau. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig, bydd yn |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhaid i unrhyw oleuadau allanol gydymffurfio â’r manylion cymeradwy. |
| FUL/000240/23 | Cyngor Cymuned Higher Kinnerton | Cais llawn - Cadw’r dafarn bresennol a chodi dwy annedd tair llofft (dosbarth defnydd C3) gan ddefnyddio’r fynedfa bresennol ar Kinnerton Lane, gyda lle parcio cysylltiedig, gwaith tirlunio caled a meddal, gan gynnwys ad-drefnu maes parcio tafarn Royal Oak, Kinnerton Lane, Higher Kinnerton | Siaradodd Jason Brautigam (Preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Jake Russell (Asiant) o blaid y cais. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Effaith ar yr amgylchedd yn sgil colli coed.<br>• Effaith ar amwynder yn sgil preswylwyr newydd yn bacio i’r maes parcio.<br>• Effaith ar hyfywedd y dafarn.<br>• Cerbydau’n parcio ar y briffordd gyfagos yn sgil diffyg llefydd parcio. |